# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH

*Arolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru*

### 96 Dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

(1) Os yw adroddiad a lunnir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 95(6) yn cynnwys argymhellion o dan adran 95(6)(b) i brif gyngor gymryd camau, rhaid i'r cyngor lunio ymateb i'r argymhellion.

(2) Rhaid i'r ymateb ddatgan pa gamau, os oes rhai, y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion.

(3) Rhaid i'r cyngor sicrhau bod fersiwn ddrafft o'r ymateb ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio.

(4) Rhaid i'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiad a wneir yn y fersiwn ddrafft o dan is-adran (2).

(5) Os nad yw'r cyngor yn gwneud newid a argymhellir gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio o dan is-adran (4), rhaid i'r cyngor nodi, yn yr ymateb, yr argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y newid.

(6) Rhaid i'r cyngor anfon yr ymateb at yr Archwilydd Cyffredinol cyn diwedd—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 96. (See end of Document for details)*

(a) y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r cyngor yn cael adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, neu

(b) unrhyw gyfnod hirach y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei bennu mewn ysgrifen.

(7) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl anfon yr ymateb at yr Archwilydd Cyffredinol rhaid i'r cyngor—

(a) cyhoeddi'r ymateb, a

(b) anfon yr ymateb at—

(i) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a

(ii) Gweinidogion Cymru.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 96.